CYNGOR CYMUNED EGLWYSWRW COMMUNITY COUNCIL.

Cynhalwyd cyfarfod o'r Cyngor Cymuned, Nos Fawrth 7fed o Fawrth 2017 yn yr Hen Ysgol Eglwyswrw gan gychwyn am 8.00y.h.

Presennol

Cadeirydd: Julie Charlton

Cynghorwyr: Enid Cole, Ceirwyn John, Robin Phillips, Alwyn Evans, Lon Davies, Llinos Davies, Ieuan Davies

Cynghorydd Sir: Clerc: Helen Evans

Croeso'r Cadeirydd:

Croesawodd y cadeirydd yr aelodau I'r cyfarfod. Estynnwyd cydymdeimlad a Ieuan Davies a'r teulu ar golli ei Dad yn ddiweddar.

Ymddiheiriadau:- Cyng. Keith Lewis

Cofnodion 07.02.17

Cynigodd Enid Cole ac eiliodd Robin Phillips fod y cofnodion yn gywir. Arwyddwyd y cofnodion gan y Cadeirydd.

Materion yn codi o'r cofnodion

112. Mr. Absalom Serjeant's Eglwyswrw – safle bws a cysgodfan y pentref. Cyng. Keith Lewis wedi cadarnhau bod y wybodaeth yma wedi ei ddanfon ymlaen I Llywodraeth Cymru.

113. Cyflwr rhewl rhwng Rhos Eglwyswrw a Swan – Clerc wedi cadarnhau bod y ffordd yma yn cael ei ail wneud yn fuan.

Gohebiaeth

114. CFFI Sir Benfro – Cyn trafod fe ddangosodd Alwyn Evans diddordeb yn y mater. Llythyr ynglyn a cymorth ariannol. Cynigodd Ceirwyn John ac eiliodd Enid Cole cyfraniad o £100.00.
115. Cyfanwm yn y banc 25.2.2017 - £3,386.05
116. Bobath Cymru – Llythyr ynglyn a cymorth ariannol. Cynigodd Alwyn Evans ac eiliodd Ceirwyn John cyfraniad o £100.00
117. Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Cais Cynllunio Mrs. L. Parkes, Isfryn, Pontyglasier. Llythyr I gadarnhau bod y cais wedi ei wrthod.
118. Gofal Mewn Galar – Llythyr am gymorth ariannol. Cynigiodd Enid Cole ac eiliodd Lon Davies rhodd o £50.00.
119. Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Cais Cynllunio Mr a Mrs. Hill, Eisteddfa Arthur Brynberian. Cais ar gyfer dymchwel rhan o adeilad presennol a'I throsi I lety gwyliau 2 ystafell wely. Roedd pawb yn hapus gyda'r cais.
120. Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Cais Cynllunio Lindsey a Rutherford Glanyrafon Isaf, Brynberian – Cais ar gyfer newid defnydd tir amaethyddol I ffurfio rhan o gwrtil preswyl ac ail lleoli swyddfa ffrâm pren. Roedd gan rhai o'r cynghorwyr pryder bod y swyddfa pren ym mhell o'r ty. Clerc I wneud ymholiadau pellach.
121. Cyngor Sir Benfro – Cais Cynllunio Mr. Aled Rees, Treclyn, Eglwyswrw. Llythyr I gadarnhau bod y cais wedi dderbyn.

122. Cyngor Sir Benfro – Cais Cynllunio Mr a Mrs. A Milner, Brynvilla, Eglwyswrw. Ail gais ar gyfer estyniad gan fod y cais cyntaf wedi wrthod.
123. Cyngor Cymuned Eglwyswrw Asesiad risg. Dosbarthwyd y wybodaeth I pawb. Cynigodd Alwyn Evans ac eiliodd Robin Phillips I dderbyn yr asesiad blynyddol.
124. Gwybodaeth wrth Llywodraeth Cymru – Hysbyseb ynglyn a etholiad Mis Mai. Dosbarthwyd y wybodaeth I pawb ac fe fydd hefyd yn yr hysbysfwrdd.

Unrhyw Fater Arall

125. Etholiad Cyngor Cymuned – Dosbarthwyd y wybodaeth I pawb er mwyn llenwi ai ddanfon yn ol l'r Clerc.
126. Llythyr wrth Pwyllgor Canolfan Gymdeithasol Brynberian – Cais I Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig ar gyfer adnewyddu'r adeilad. Cyn trafod fe wnaeth Lon Davies datgan ei diddordeb yn y mater. Gofyn am llythyr o gefnogaeth ysgrifenedig ac ariannol. Clerc I ysgrifennu llythyr o gefnogaeth.

Dyddiad y Cyfarfod nesaf: Nos Fawrth 4ydd o Ebrill am 8.00y.h.

Terfynwyd y Cyfarfod am 8.50y.h.